

Rôl Wirfoddol: Cysylltydd ag Asiantaethau Cyfeirio



Lle: Canolfan Gwyrfai, Lôn Cae Ffynnon, Caernarfon, LL55 2BD; byddai'n bosib gwirfoddoli o bell.

Pryd: Pob dydd Mawrth a dydd Gwener, 10:00 AM - 2:00 PM

Ymrwymiad amser: 4-8 awr yr wythnos

Prif gyswllt: Trey McCain, Banc Bwyd Arfon, info@arfon.foodbank.org.uk

Golwg gyffredinol ar y rôl:

Mae talebau banc bwyd yn cael eu rhoi i bobl gan asiantaethau cyfeirio (sefydliadau statudol a mudiadau elusenol e.e. Cyngor ar Bopeth neu'r Ganolfan Waith). Gall pobl gyfnewid eu taleb am barseil bwyd argyfwng 3 diwrnod mewn banc bwyd lleol. Mae hon yn rôl gyswllt hanfodol, mae'n cefnogi ac yn datblygu perthynas y banc bwyd ag asiantaethau cyfeirio lleol i wella'r gwasanaeth a gynigiwn.

Tasgau allweddol

- Developing the foodbank's relationship with existing referral agencies
- Mynd ati i geisio ymestyn rhwydwaith y banc bwyd, gwneud cysylltiadau newydd, a nodi cyfleoedd newydd
- Cynorthwyo rheolwr y banc bwyd i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'n gwirfoddolwyr a'n staff am ein partneriaid cyfeirio a'n hasiantaethau lleol, gan gynnwys cynnal sesiynau gwybodaeth am y banc bwyd
- Trefnu argraffu talebau a'u dosbarthu i asiantaethau cyfeirio
- Rhannu arfer gorau a phwyntiau dysgu allweddol i wella effeithlonrwydd
- Cysylltu â gwirfoddolwyr y banc bwyd i ddarganfod y pwyntiau dysgu allweddol

Amdanoch chi

- Sgiliau cyfathrebu da
- Sgiliau rhyngpersonol da
- Ymwybyddiaeth o'r asiantaethau sydd ar waith yng nghymunedau Arfon
- Yn gallu gweithio ar eich liwt eich hun
- Yn gallu eich ysgogi eich hun
- Yn rheoli amser yn dda
- Sgiliau trefnu cryf

Manteision gwirfoddoli

- Dysgu sgiliau newydd
- Manteisio ar gyfle unigryw
- Cwrdd â phobl newydd sy'n rhannu eich awydd cryf i ddileu tlodi yn y gymuned

- Gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i waith eich banc bwyd
- Chwarae rôl werthfawr mewn elusen wych.

Effaith eich rôl

- Helpu i redeg y banc bwyd yn effeithlon
- Ehangu rhwydwaith y banc bwyd
- Sicrhau arferion gorau ar draws ein partneriaid

Cefnogi

Byddwch yn cael hyfforddiant cychwynnol a chyflwyniad i'r banc bwyd ac yna hyfforddiant a chefnogaeth barhaus ar gyfer eich rôl benodol. Byddwch yn gweithio gyda rheolwr prosiect y banc bwyd a'r cydlynnydd mynegbostio.

Sut mae gwneud cais

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch ag info@arfon.foodbank.org.uk.